# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 19 Mehefin 2017 yn Siambr Cyngor Sir Ddinbych. Dechreuodd y cyfarfod am 11 y bore.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P H Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead a G Brandrick (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| A Daniels | Cyngor Gwynedd |
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| I D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Dechreuodd y cyfarfod drwy gynnal munud o dawelwch dros ddioddefwyr tân Tŵr Grenfell yn Llundain.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 MATERION BRYS

2.1 Roedd y Clerc wedi cael rhybudd o fater brys gan y Cyng. Dylan Rees ar fater “Goblygiadau trychineb Tŵr Grenfell".

2.2 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i’r aelodau fod camau wedi cael eu cymryd yn y Gwasanaeth i roi sicrwydd i’r staff a’r gymuned y byddai’r Gwasanaeth yn ddigon parod petai digwyddiad tebyg yn digwydd yng Ngogledd Cymru. Nodwyd mai yn Sir y Fflint y mae’r tri adeilad uchel yng Ngogledd Cymru, a chynhelir ymarferion rheolaidd yn yr adeiladau hyn. Cadarnhawyd bod y gwasanaeth yn parhau i gynghori’r trigolion i aros yn eu fflat os bydd tân yn yr adeilad.

2.3 Cadarnhaodd y Clerc fod gwaith allanol a mewnol wedi cael ei wneud yn 2016 mewn adeiladau uchel er mwyn dod â nhw i’r safonau diogelwch cenedlaethol, gan gynnwys gosod systemau taenellu dŵr. Anfonwyd datganiad sicrwydd i holl Gynghorwyr Sir y Fflint yn dilyn y digwyddiad trasig yn Llundain. Nodwyd bod y Cyngor wedi cysylltu â phob preswyliwr drwy ymweliadau a llythyron, a chafodd hyn ymateb cadarnhaol ganddynt. Roedd yr Aelodau’n ddiolchgar am y sicrwydd a roddwyd.

2.5 **PENDERFYNWYD nodi’r wybodaeth.**

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 MAWRTH 2017

3.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2017 eu cyflwyno i’w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo’r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5 PERFFORMIAD ARIANNOL 2016-17

5.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2016-17. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau gymeradwyo cario cronfeydd a glustnodwyd drosodd fel y nodwyd yn yr adroddiad.

5.2 Aeth y Trysorydd â'r aelodau drwy'r adroddiad yn fanwl, gan esbonio'r modd y defnyddir cronfeydd wrth gefn, gwahanol orwariannau a thanwariannau, a sut mae'r gyllideb yn cael ei rheoli. Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau i'r Trysorydd am yr adroddiad.

5.3 O ran arian grant ar gyfer gweithgareddau diogelwch cymunedol, gan gynnwys y Ffenics, atgoffwyd yr aelodau gan y PST fod yr Awdurdod wedi penderfynu y byddai'r gweithgareddau sy'n cael eu hariannu yn dod i ben petai Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i ddarparu'r arian grant.

5.4 Nodwyd bod cario cronfeydd a glustnodwyd drosodd yn gysylltiedig â'r prosiectau a ganlyn:

- Contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau radio – mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen, ac ystyrir mai peth darbodus yw neilltuo arian i dalu unrhyw gostau ychwanegol a allai fod oherwydd yr oedi yn yr amserlen ar lefel genedlaethol. £300k
- Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gostyngiad o 50% yn y grant diogelwch cymunedol, felly ystyrir mai peth darbodus yw cario'r gronfa hon drosodd i ariannu gwariant yn y dyfodol £194k
- Cerbyd cludo newydd ar gyfer adran y Fflyd – nid oedd y cerbyd hwn yn barod i'w brynu yn 2016-17 felly gofynnwyd am gael clustnodi cronfa ar gyfer hyn yn benodol yn 2017-18. £54k

5.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod;**

**(ii) cymeradwyo cario cronfeydd a glustnodwyd drosodd fel y nodir uchod;**

**(iii) cymeradwyo'r gronfa newydd a glustnodwyd fel y nodir uchod.**

6 PWYNTIAU ALLWEDDOL PERFFORMIAD ANARCHWILIEDIG AMCANOL 2016-17

6.1 Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol gyflwyniad ar ffigyrau perfformiad anarchwiliedig amcanol 2016-17. Roedd hyn yn rhoi cyfle cynnar i'r Aelodau weld perfformiad y Gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a nodwyd y bydd yr wybodaeth yn cael ei hadrodd yn ffurfiol drwy'r asesiad perfformiad a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2017.

6.2 Roedd y ffigyrau perfformiad yn dangos bod tueddiad yn parhau am i lawr yn nifer y digwyddiadau yn y rhan fwyaf o feysydd perfformiad. Ond bu cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau gwasanaeth arbennig oherwydd y cynllun cyd-ymateb newydd a'r tîm cymorth cymunedol, a da oedd nodi bod y mentrau hyn yn profi'n werthfawr i'r cyhoedd.

6.3 Bu gostyngiad yng nghyfanswm y tanau o gymharu â 2015-16 ynghyd â gostyngiad yn nifer yr anafusion o ganlyniad i danau damweiniol mewn cartrefi. Mynegodd aelodau bryder am nifer y galwadau ffug maleisus a gafwyd, a rhoddodd y PST sicrwydd i'r aelodau fod polisi'r Gwasanaeth ar herio galwadau yn gweithio'n eithriadol o dda a bod 48 yn llawer llai na nifer y galwadau diangen yr oeddem yn mynd atynt cyn rhoi'r polisi hwn ar waith.

6.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, ac y bydd yr adroddiad perfformiad archwiliedig yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2017.**

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDYLEDION A DDILEWYD

7.1 Ar gais yr Awdurdod, mae'r Trysorydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol, i restru'r holl ddyledion dan £5,000 a oedd wedi cael eu dileu gan nodi'r rhesymau dros eu dileu.

7.2 Esboniodd y Trysorydd fod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno fel mater o drefn ers nifer o flynyddoedd. Ond yn y dyfodol, cynigiodd y dylai'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac y dylai unrhyw dyled sy'n cael ei dileu ac sydd dros £1,000 gael ei hadrodd yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod.

7.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi nad yw'r Gwasanaeth wedi dileu unrhyw ddyledion drwg rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017;**

**(ii) cytuno y dylai adroddiadau'r dyfodol gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, ac y dylent gynnwys manylion unrhyw ddyled ddrwg sydd dros £1,000, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod.**

8 GWEITHFAWROGIADAU A CHWYNION

8.1 Cyflwynodd y PSTC Brandrick yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a gafwyd gan y cyhoedd yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

8.2 Mae cwynion yn cael eu cofnodi fel materion y tynnir sylw'r Gwasanaeth atynt pan fo aelodau'r staff yn cyflawni neu'n cymryd rhan ym musnes cyfreithlon Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Ymchwiliwyd i 30 o gwynion, a chadarnhawyd 9 ohonynt. Yn yr un cyfnod, daeth 129 o negeseuon o werthfawrogiad drwy lythyrau, cardiau, negeseuon e-bost a chyfryngau cymdeithasol i fynegi gwerthfawrogiad a bodlonrwydd â'r Gwasanaeth a'i staff.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi nifer y cwynion a'r negeseuon o werthfawrogiad a ddaeth i law.**

9 PANEL ANINIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

9.1 Cyflwynodd y Clerc adroddiad blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy'n nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth ariannol i'r aelodau a fydd yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod blynyddol ar 19 Mehefin 2017.

9.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol am lwfansau'r aelodau a'r gydnabyddiaeth ariannol, sydd i'w gweithredu ar 19 Mehefin 2017;**

**(ii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i ddiweddaru'r rhestr o gydnabyddiaethau ariannol yr aelodau yng nghyfansoddiad yr Awdurdod, ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2017/18 o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn gyngor, a hynny er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol a gyhoeddir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

10 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17

10.1 Cyflwynodd y DBST adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol a oedd yn nodi gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

10.2 **PENDEFYNWYD cymeradwyo adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2016-17 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**